

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020

Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 4





RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

58/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

AWST 25, 2020



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80082-048-7

© Hawlfraint y Goron 2020

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020: Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 4.

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80082-048-7
Awst 25, 2020
© Hawlfraint y Goron 2020



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan [Fersiwn 3.0 Trwydded Agored](#) y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau	2
2. Cefndir a methodoleg.....	4
3. Capasiti pan ar agor.....	5
4. Effaith ar staff.....	9
5. Effaith ar refeniw.....	14
6. Cymorth gan y llywodraeth	17
7. Perfformiad ers ailagor – archebion presennol ac ymlaen llaw	19
8. Cynlluniau'r llywodraeth a chymorth pellach a ddymunir.....	34

1. Prif ganfyddiadau

Dull arolygu ac amseru

- 1.1 Gwnaethom gynnal 801 o gyfweiliadau dros y ffôn gyda pherchnogion a rheolwyr busnesau twristiaeth rhwng 27 Gorffennaf a 6 Awst. Gweler Adran 2 am ragor o fanylion ynglŷn â'r dull.

Ailagor unwaith yn rhagor

- 1.2 Mae diwydiant twristiaeth Cymru wedi ailagor yn bennaf yn dilyn cyfnod pedwar mis y cyfyngiadau symud. Yn gyffredinol, mae oddeutu thri chwarter (78%) y busnesau ar agor. Mae mwyafrif digonol ym mhob sector ar agor, ar wahân i atyniadau, lle mai ychydig dros hanner ohonynt (53%) ar agor. Addasu i fesurau COVID-19 yw'r prif reswm nad yw llawer o atyniadau wedi agor eto.

Mae lefelau capasiti yn amrywio'n sylweddol

- 1.3 Mae oddeutu hanner (51%) y rhai sydd ar agor yn gweithredu i'w capasiti llawn. Mae'r sector hunanddarpar yn wahanol iawn i'r sectorau eraill – mae 80% o fusnesau hunanddarpar sydd ar agor yn llawn. Mae 43% o lety â gwasanaeth sydd ar agor yn llawn, ond dim ond chwarter (25%) y busnesau mewn sectorau eraill sydd ar agor yn llawn.
- 1.4 Ymhlith y rheini sy'n gweithredu â llai o gapasiti, mae'r lefelau'n amrywio'n sylweddol, o gapasiti sydd bron â bod yn llawn i gapasiti o lai na 10%.

Archebion ers ailagor

- 1.5 Mae 11% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor nag y byddent fel arfer wedi'u cael yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae 45% wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 44% wedi cael llai o gwsmeriaid nag arfer.
- 1.6 Mae hyn yn ymwneud mwy â chapasiti cyfyngedig na'r galw. Mae lefel yr archebion o gymharu â'r cyffredin yn cyfateb yn gadarn â chapasiti pan ar agor. Mae 13% o fusnesau sydd ar agor yn gyfan gwbl wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer, mae 63% wedi cael yr un lefel, ac mae 24% wedi cael llai.
- 1.7 Mae hyn yn cymharu â 9% o fusnesau sydd ar agor yn rhannol â mwy o gwsmeriaid nag arfer, 25% â'r un lefel, a 66% â llai.

Darlun tebyg o ran archebion ymlaen llaw

- 1.8 Mae gan 13% o fusnesau sydd ar agor neu sy'n bwriadu ailagor fwy o archebion nag arfer ar gyfer mis Awst a mis Medi, mae gan 46% yr un lefel, ac mae gan 41% lai o archebion.

- 1.9 Fodd bynnag, fel sy'n wir am gwsmeriaid hyd yn hyn, mae hyn yn cyfateb yn gadarn â'r capasiti pan ar agor. Ymhlith y rheini sy'n gweithredu ar gapasiti llawn, mae gan 17% fwy o archebion nag arfer, mae gan 60% yr un lefel, ac mae gan 23% lai o archebion.

Nifer fach iawn o ddiswyddiadau hyd yn hyn

- 1.10 Tra bo newyddion y Deyrnas Unedig yn adrodd am ddiswyddiadau ar raddfa fawr gan gwmnïau mawr yn aml, mae swyddi yn niwydiant twristiaeth Cymru wedi goroesi yn bennaf hyd yn hyn. Mae 1% o fusnesau wedi gwneud diswyddiadau. Ymhlith y sampl o 801 o fusnesau, mae 22 aelod o staff parhaol amser llawn wedi'u diswyddo hyd yn hyn, a phum aelod o staff parhaol rhan-amser. Mae angen eu staff ar fusnesau ar gyfer tymor brig yr haf.

Effaith ar refeniw

- 1.11 Mae gwerth refeniw coll o ganlyniad i'r argyfwng yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint y busnes gydag 1% yn colli dros £1m, yn gyffredinol, mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn dueddol o fod tua phen uchaf y swm o £10,000 i £25,000.
- 1.12 Er bod gwerth £ y refeniw a gollwyd hyd yn hyn yn amrywio'n fawr yn ôl maint y busnes, nid yw'r un peth yn wir ar gyfer cyfran y refeniw blyneddol arferol y mae'r golled yn ei chynrychioli. Ar draws busnesau o bob maint, canolrif y golled a gofnodwyd o ganlyniad i'r argyfwng yw rhwng 41% a 50% o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r darlun hefyd yn weddol gyson ar draws pob sector a rhanbarth.

Barod Amdani

- 1.13 Mae ychydig dros hanner (54%) o fusnesau wedi ymrwymo i'r safon diwydiant Barod Amdani. Mae'r gyfran ar ei huchaf ymhlith meysydd carafanau a gwerysyla (65%) ac ar ei hisaf ymhlith bwytaï, tafarndai a chaffis (31%). Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.

Rhagolwg llawer mwy iach nag ychydig fisoedd yn ôl

- 1.14 Dywedodd 7% o weithredwyr nad ydyn nhw'n disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf. 33% oedd y gyfran yn yr arolwg blaenorol ar ddiwedd mis Ebrill.

2. Cefndir a methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi'i ddylunio i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn.
- 2.2 Yr arolwg hwn yw'r bedwaredd don i ymchwilio i effaith yr argyfwng COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?


- 2.3 Rydym wedi cynnal 801 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hyn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.5\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	100	38	70	48	256
Hunanddarpar	88	58	92	44	282
Meysydd carafanau / gwersylla	41	12	20	5	78
Hostelau	8	7	6	3	24
Atyniadau	24	12	19	20	75
Gweithredwyr gweithgareddau	18	8	19	5	50
Bwytaï / tafarndai / caffis	4	15	5	12	36
Cyfanswm	283	150	231	137	801

- 2.4 Mae 73% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau graddedig a'r rheini sydd heb eu graddio wedi'u gwasgaru ar draws y rhanbarthau a sectorau gwahanol ac eithrio bwytaï / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio yn berthnasol. Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 27 Gorffennaf a 6 Awst.

3. Capasiti pan ar agor

Busnesau sydd ar agor / ar gau fesul sector




Ailagor unwaith yn rhagor

- 3.1 Mae diwydiant twristiaeth Cymru wedi ailagor yn bennaf yn dilyn cyfnod pedwar mis y cyfyngiadau symud. Yn gyffredinol, mae oddeutu thri chwarter (78%) y busnesau ar agor.
- 3.2 Mae llety lle'r oedd mwy o bellter yn bodoli eisoes rhwng y gwesteion cyn y pandemig – hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla i ryw raddau – yn fwy tebygol o fod ar agor na hostelau a llety â gwasanaeth, lle mae gweithredwyr wedi wynebu heriau i gynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer eu gwesteion.
- 3.3 Mae'n ymddangos mai atyniadau yw'r sector olaf i ailagor ar raddfa eang. O'r 47% sydd ar gau ar hyn o bryd, nid yw 39% wedi agor o gwbl eto yn 2020 (gan gynnwys y cyfnod cyn y cyfyngiadau symud).

“Dylen ni fod yn agor yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf”
Atyniad, y De-ddwyrain

Rhesymau dros aros ar gau



Gofynnwyd C2 i fusnesau sydd ar gau ar hyn o bryd

Cyfyngiadau COVID-19

3.4 Y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â bod ar agor yw'r cyfyngiadau parhaus ar sectorau penodol o ganlyniad i COVID-19. Mae'r sampl yn rhy fach i'w dadansoddi ar gyfer rhai sectorau, ond dyma'r prif ateb a roddwyd gan atyniadau sydd ar gau (mae 66% ohonynt wedi nodi hyn) ac 11 o'r 12 gweithredwr gweithgareddau sydd ar gau yn y sampl.


Cau'r drysau am y tro

- 3.5 Nid oes gan oddeutu un ym mhob tri (32%) o fusnesau sydd ar gau unrhyw gynlluniau i ailagor ar unwaith, ac mae 7% o fusnesau sydd ar gau yn barhaol bellach.
- 3.6 Un rheswm cyffredin dros fod ar gau dros dro yw gwarchod. Mae rhai gweithredwyr llety bach yn oedrannus ac nid ydyn nhw am wynebu'r risg bod cwsmeriaid yn dod â'r feirws i'w heiddo, sydd hefyd yn gartref iddynt mewn rhai achosion.

"Nid ydym yn cymryd archebion oherwydd fy mod yn ynysu ac nid ydym yn gwybod pryd y byddwn yn agor"
Hostel, y De-ddwyrain

"Ar hyn o bryd, rwy'n gorfod gwarchod ac nid wyf yn gallu ailagor fy musnes ar gyfer cwsmeriaid"
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

Capasiti gweithredu



Busnesau sydd ar agor yw'r sampl ar gyfer y canlyniadau uchod

Mae lefelau capasiti yn amrywio'n sylweddol

- 3.7 Mae oddeutu hanner (51%) y rhai sydd ar agor yn gweithredu i'w capasiti llawn. Mae'r sector hunanddarpar yn wahanol iawn i'r sectorau eraill – mae 80% o fusnesau hunanddarpar sydd ar agor ar agor yn llawn. Mae'r sector hwn braidd yn 'ffodus' o'i gymharu â'r sectorau eraill yn yr ystyr bod gwesteion mewn unedau hunangynhwysol ac felly nid oes angen iddyn nhw ddod yn agos at ei gilydd.
- 3.8 Mae 43% o lety â gwasanaeth sydd ar agor ar agor yn llawn, ond dim ond chwarter (25%) y busnesau mewn sectorau eraill sydd ar agor sydd ar agor yn llawn. Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.
- 3.9 Ymhlith y rheini sy'n gweithredu â llai o gapasiti, mae'r lefelau'n amrywio'n sylweddol o gapasiti sydd bron â bod yn llawn i gapasiti o lai na 10%, fel y dangosir ar y siart uchod.
- 3.10 Mae'r tabl isod yn dangos y capasiti gweithredu fesul sector:

Capasiti gweithredu presennol	Sector						
	Llety â gwasanaeth	Hunanddarpar	Meysydd carafanau /gwersylla	Hostelau	Atyniadau	Darparwyr gweithgareddau	Bwytaï / tafarndai / caffis
Ar agor yn llawn	43%	80%	29%	26%	25%	18%	21%
90 – 99%	3%	5%	11%	-	8%	5%	3%
80 – 89%	9%	3%	12%	11%	10%	3%	9%
70 – 79%	10%	3%	25%	11%	10%	8%	15%
60 – 69%	9%	2%	8%	16%	8%	5%	3%
50 – 59%	13%	5%	5%	11%	8%	18%	15%
40 – 49%	4%	2%	3%	16%	10%	11%	9%
30 – 39%	5%	-	3%	-	8%	8%	12%
20 – 29%	1%	-	3%	5%	8%	5%	12%
10 – 19%	2%	-	-	-	5%	3%	-
Llai na 10%	1%	-	1%	5%	3%	16%	-
<i>Sampl:</i>	<i>178</i>	<i>240</i>	<i>73</i>	<i>19</i>	<i>40</i>	<i>38</i>	<i>33</i>

3.11 Mae 16% o ddarparwyr gweithgareddau sydd ar agor yn gweithredu ar gapasiti o lai na 10%.

“Gweithgareddau dydd yn unig y gallwn eu cynnig ar hyn o bryd ac mae ein holl weithgareddau dan do wedi cael eu canslo”

Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

“Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i bawb gynnal mesurau cynnal pellter o ddau fetr, sy'n golygu y bydd ein capasiti yn cael ei dorri o 90 i 24 o deithwyr”


Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

“Bu'n rhaid i ni gymryd teuluoedd yn hytrach na grwpiau mawr oherwydd y rheolau am beidio â chael grwpiau cymysg, felly rydym ond yn gweithredu at 25%”

Hostel, y De-orllewin

4. Effaith ar staff

Effaith ar staff yn gyffredinol



Gofynnwyd C8 i weithredwyr sy'n cyflogi staff

Mae'r cynllun ffyrlo yn parhau i ddiogelu swyddi am y tro

- 4.1 Mae dau o bob tri (66%) o fusnesau sy'n cyflogi unrhyw staff wedi defnyddio cynllun ffyrlo'r llywodraeth, ond mae nifer y diswyddiadau – yn y gorffennol, y presennol neu'n ddisgwyliedig yn y dyfodol – yn parhau i fod yn fach iawn am y tro.
- 4.2 Yng nghanol tymor brig yr haf, nid yw diswyddiadau yn brif ystyriaeth. Bydd rhaid aros i weld a fydd hyn yn newid yn yr hydref pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben a phan fydd busnesau'n gwybod a ydynt wedi ennill digon o incwm yn ystod yr haf.

"Rwy'n credu y gallai pethau fod yn anodd unwaith y bydd y cyfnod ffyrlo yn dod i ben ym mis Hydref ond bydd rhaid i ni aros i weld"
Bwyty, y Canolbarth

- 4.3 Ymhlith y sampl o 801 o fusnesau, mae 22 aelod o staff parhaol amser llawn wedi'u diswyddo hyd yn hyn, a phum aelod o staff parhaol rhan-amser.
- 4.4 Mae cyfran y busnesau (sy'n cyflogi staff) sy'n gosod staff ar ffyrlo yn ôl rhanbarth fel a ganlyn:
- Gogledd Cymru – 68%
 - Canolbarth Cymru – 70%

- De-orllewin Cymru – 54%
- De-ddwyrain Cymru – 78%

4.5 Mae cyfran y busnesau (sy'n cyflogi staff) sy'n gosod staff ar ffyrlo yn ôl sector fel a ganlyn:

- Darparwyr gweithgareddau – 76%
- Llety â gwasanaeth – 75%
- Bwyta / tafarndai / caffis – 74%
- Atyniadau – 72%
- Hostelau – 69%
- Hunanddarpar – 49%
- Meysydd carafanau / gwersylla – 46%

Cam gweithredu	Cyfanswm y nifer a gyflogir	Nifer cyfartalog y staff sydd ar ffyrlo / sy'n gweithio llai o oriau / sydd wedi'u diswyddo (<i>Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff</i>)
Staff sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd	1	0.4
	2	0.9
	3	1.6
	4	2.4
	5	3.0
	6 – 10	4.6
	11 – 50	17.4
	Dros 50	44.8
	Ffigur cyffredinol	7.5
Staff sy'n gweithio llai o oriau	Ffigur cyffredinol	0.3
Staff sydd wedi'u diswyddo	Ffigur cyffredinol	0.7

Nid yw'r cyfartaleddau ar gyfer staff sy'n gweithio llai o oriau ac sydd wedi'u diswyddo yn cael eu rhannu yn ôl maint busnes oherwydd maint sampl isel pan rennir

Os yw unrhyw staff wedi'u gosod ar ffyrlo, mae'r nifer yn cynnwys yr holl staff neu bron yr holl staff

4.6 Ar gyfartaledd, mae rhwng saith ac wyth o bobl ym mhob busnes twristiaeth sy'n cyflogi staff wedi cael eu gosod ar ffyrlo. Wrth ailsamplu, gwelir bod busnesau sydd â staff ar ffyrlo wedi gosod deg aelod o staff ar ffyrlo ar gyfartaledd.

4.7 Mae'r rhaniadau yn ôl rhanbarth ar gyfer gosod ar ffyrlo fel a ganlyn:

Rhanbarth	Nifer cyfartalog y staff sydd ar ffyrlo (<i>Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff</i>)
Gogledd Cymru	13.7
Canolbarth Cymru	7.1
De-orllewin Cymru	9.7
De-ddwyrain Cymru	6.2

Staff tymhorol

C6 “Faint o weithwyr tymhorol fydddech chi yn eu cyflogi fel arfer yr adeg hon o’r flwyddyn?”	Cymru gyfan	Atebion yn ôl sector						
		Llety â gwasan aeth	Hunan ddarpar	Meysydd carafanau /gweryslla	Hostelau	Atyniadau	Darparwyr gweithgar eddau	Bwytaï / tafarndai / caffis
Dim un	78%	75%	92%	77%	58%	56%	69%	67%
1	3%	3%	3%	1%	8%	9%	2%	3%
2	5%	5%	3%	8%	13%	4%	2%	11%
3	2%	2%	1%	3%	4%	1%	7%	-
4	2%	3%	-	3%	8%	3%	2%	8%
5	2%	1%	-	1%	8%	3%	7%	3%
6 hyd at 10	4%	6%	1%	5%	-	10%	7%	6%
11 hyd at 50	3%	5%	-	1%	-	12%	4%	3%
51 hyd at 100	-	-	-	-	-	1%	-	-
Sampl:	773	243	282	75	24	68	45	36

Mae atebion ‘ddim yn gwybod’ wedi cael eu heithrio o’r canlyniadau uchod

Mae staff tymhorol yn fwy tebygol o fewn sectorau y tu hwnt i'r sectorau llety

4.8 Yn ystod brig yr haf, byddai 22% o fusnesau fel arfer yn cyflogi staff tymhorol. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir yn y sectorau y tu hwnt i'r sectorau llety (atyniadau, darparwyr gweithgareddau, bwytaï, tafarndai a chaffis), lle byddai 38% fel arfer yn cyflogi gweithwyr tymhorol yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn.

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

4.9 Mae'r canlyniadau hefyd yn wahanol yn ôl rhanbarth – po bellaf i'r gogledd, y mwyaf tebygol ydyw y bydd y diwydiant yn dibynnu ar staff tymhorol. Mae oddeutu un o bob tri (31%) o fusnesau yng Ngogledd Cymru fel arfer yn cyflogi staff tymhorol yn ystod yr haf, o gymharu â 6% yn unig yn Ne-ddwyrain Cymru.

C7 (Os oes rhai yn cael eu cyflogi fel arfer) "Os oes rhai, faint o weithwyr tymhorol ydych chi'n eu cyflogi ar hyn o bryd?"

Dim un	57%	
1	13%	
2	10%	
3	7%	
4	2%	
5	2%	
O 6 hyd at 10	5%	
O 11 hyd at 50	4%	Sampl: 167

SYLWER Mae'r sampl yn rhy fach i gael ei rhannu'n ddibynadwy yn ôl rhanbarth

Effaith sylweddol ar staff tymhorol, ond llai nag yn ystod y gwanwyn

- 4.10 Nid yw dros hanner (57%) y busnesau a fyddai fel arfer yn cyflogi gweithwyr tymhorol wedi gallu gwneud hynny yr haf hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant ers y don ymchwil flaenorol ar ddiwedd mis Ebrill, pan nad oedd 86% o fusnesau a fyddai fel arfer yn cyflogi staff tymhorol ar yr adeg honno o'r flwyddyn yn gallu eu cyflogi.
- 4.11 Ar gyfartaledd, byddai busnesau o fewn y sampl fel arfer yn cyflogi 1.7 o weithwyr tymhorol (fesul busnes). 0.5 fesul busnes yw'r nifer gwirioneddol a gyflogir eleni.

5. Effaith ar refeniw

Colled mewn refeniw

C19 "... faint o refeniw mae eich busnes wedi'i gollu hyd yn hyn o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19?"	Cymru gyfan	Atebion yn ôl sector						
		Llety â gwasan aeth	Hunan ddarpar	Meysydd carafanau /gwersylla	Hostelau	Atyniadau	Darparwyr gweithgar eddau	Bwyta / tafarndai / caffis
Heb gollu unrhyw refeniw	2%	1%	3%	-	7%	11%	-	-
Hyd at £1,000	-	-	1%	-	-	-	-	6%
£1,001 – £2,500	2%	-	5%	3%	-	-	-	-
£2,501 – £5,000	8%	3%	16%	3%	-	3%	-	-
£5,001 – £10,000	13%	7%	23%	14%	-	-	3%	11%
£10,001 – £25,000	27%	25%	33%	21%	47%	11%	24%	6%
£25,001 – £50,000	15%	20%	13%	21%	13%	14%	12%	6%
£50,001 – £100,000	12%	18%	3%	28%	7%	11%	12%	33%
£100,001 – £250,000	9%	13%	2%	10%	20%	23%	12%	22%
£250,001 – £500,000	6%	4%	2%	-	-	20%	24%	17%
£500,001 – £1,000,000	3%	6%	-	-	7%	3%	9%	-
Mwy na £1,000,000	1%	3%	-	-	-	3%	3%	-
<i>Sampl</i>	<i>454</i>	<i>137</i>	<i>187</i>	<i>29</i>	<i>15</i>	<i>35</i>	<i>33</i>	<i>18</i>

Mae'r canlyniadau uchod yn cynnwys y rhai nad ydyn nhw'n gwybod neu mae'n well ganddyn nhw beidio ag ateb y cwestiwn sensitif hwn

Refeniw coll sylweddol

5.1 Mae gwerth refeniw coll o ganlyniad i'r argyfwng yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint y busnes gydag 1% yn colli dros £1m, yn gyffredinol, mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn dueddol o fod tua phen uchaf y swm o £10,000 i £25,000. Mae'r tabl isod yn dangos y golled ganolrifol fras fesul busnes yn ôl y nifer y gweithwyr:

Nifer y staff cyflogedig parhaol	Ystod colled ganolrifol fras mewn refeniw hyd yn hyn
Dim	£10,000 hyd at 25,000
1 – 5	£25,000 hyd at 50,000
6 – 10	£100,000 hyd at 250,000
11 – 50	£250,000 hyd at 500,000
Mwy na 50	£1,000,000

C20 “A pha gyfran yn fras o’ch refeniw blyneddol arferol y mae’r golled honno’n ei chynrychioli hyd yn hyn?”	Cymru gyfan	Atebion yn ôl sector						
		Llety â gwasan aeth	Hunan ddarpar	Meysydd carafanau /gwersylla	Hostelau	Atyniadau	Darparwyr gweithgar eddau	Bwytaï / tafarndai / caffis
Colled o <3%	-	-	-	-	-	-	-	6%
Colled rhwng 3% a 5%	-	-	1%	-	-	-	-	-
Colled rhwng 6% a 10%	1%	-	1%	4%	-	-	-	-
Colled rhwng 11% a 15%	1%	1%	3%	-	-	-	-	-
Colled rhwng 16% a 20%	4%	-	6%	9%	7%	4%	-	-
Colled rhwng 21% a 30%	16%	9%	23%	22%	21%	8%	3%	25%
Colled rhwng 31% a 40%	20%	19%	24%	26%	14%	19%	6%	19%
Colled rhwng 41% a 50%	20%	23%	18%	26%	-	8%	34%	25%
Colled rhwng 51% a 60%	14%	15%	10%	4%	21%	19%	22%	19%
Colled rhwng 61% a 70%	9%	15%	6%	-	14%	8%	13%	6%
Colled rhwng 71% ac 80%	6%	8%	4%	4%	-	15%	9%	-
Colled o dros 80%	8%	10%	4%	4%	21%	19%	13%	-
<i>Sampl</i>	391	124	156	23	14	26	32	16

Colled sylweddol mewn refeniw hyd yn hyn ar draws y rhan fwyaf o fusnesau

5.2 Er bod gwerth £ y refeniw a gollwyd hyd yn hyn yn amrywio'n fawr yn ôl maint y busnes, nid yw'r un peth yn wir ar gyfer cyfran y refeniw blyneddol arferol y mae'r golled yn ei chynrychioli. Ar draws busnesau o bob maint, canolrif y golled a gofnodwyd o ganlyniad i'r argyfwng yw rhwng 41% a 50% o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r darlun hefyd yn weddol gyson ar draws pob sector a rhanbarth.

“Rydyn ni'n credu y bu inni golli oddeutu £20,000 y dydd pan oedden ni ar gau”
Atyniad, y Gogledd

6. Cymorth gan y llywodraeth

Cymorth y ceisiwyd amdani a'r canlyniadau

<i>C21 "A yw'ch busnes wedi gwneud cais am unrhyw un o'r cynlluniau cymorth canlynol ac wedi'i dderbyn?"</i>	<i>Wedi gwneud cais, wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi'i dderbyn</i>	<i>Wedi gwneud cais, wedi bod yn llwyddiannus, ond heb ei dderbyn</i>	<i>Wedi gwneud cais, ond yn dal i aros am y canlyniad</i>	<i>Wedi gwneud cais, ond nid oedd yn llwyddiannus</i>	<i>Heb wneud cais</i>
Grant ardrethi busnes hyd at £10,000	47%	-	1%	3%	49%
Grant ardrethi busnes hyd at £25,000	14%	-	-	1%	85%
Cynllun benthyciad adfer	10%	-	1%	<1%	89%
Cynllun hunangyflogaeth	7%	-	-	1%	92%
Cronfa Gwydnwch Economaidd Llywodraeth Cymru	5%	-	-	1%	94%
Cynllun benthyciad Banc Datblygu Cymru	2%	-	-	-	98%
Benthyciad Tarfu ar Fusnes Llywodraeth y DU	1%	-	-	-	99%
Credyd Cynhwysol	-	-	-	<1%	>99%

Sampl: 801

Grantiau – dull cymorth ariannol a ddefnyddir yn helaeth

- 6.1 Lleiafrifoedd o fusnesau bach sydd wedi gwneud cais am y rhan fwyaf o gymorth ariannol gan y llywodraeth, ar wahân i grantiau. Hefyd, fel nodyn atgoffa o Adran 4, mae dwy ran o dair (66%) o fusnesau sy'n cyflogi unrhyw staff wedi defnyddio cynllun ffyrlo'r llywodraeth.
- 6.2 Fel y gwnaethom adrodd yn y don ymchwil flaenorol (diwedd mis Ebrill), roedd llawer o weithredwyr yn amharod i dderbyn dyled ychwanegol pan nad oeddent yn gwybod pe gallent dalu'r arian nôl.

"Nid ydym am gael benthyciad, heb wybod a ydym yn mynd i wneud digon o arian i'w dalu nôl"

Atyniad, y Canolbarth

"Roedd y grant o £10,000 ... yn achubwr bywyd"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd


- 6.3 Pan ymgeisiodd busnesau am gymorth, buont yn llwyddiannus bron bob amser. Roedd y cymorth grant yn cynnig gwiriwr cymhwysedd cyn ymgeisio cyflym, ac felly roedd busnesau yn gwybod cyn gwneud cais a oeddent yn debygol o fod yn llwyddiannus neu beidio.

Gwahaniaethau yn ôl y math o ymatebydd

- 6.4 Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol, ond ceir rhai gwahaniaethau sylweddol yn ôl y sector:
- Gwnaeth 12% o fusnesau nad ydynt yn cynnig llety gais llwyddiannus i Gronfa Gwydnwch Economaidd Llywodraeth Cymru, o'i gymharu â 4% o fusnesau sy'n cynnig llety
 - Gwnaeth 64% o fusnesau sy'n cynnig llety gais llwyddiannus am grant, o'i gymharu â 49% o fusnesau nad ydynt yn cynnig llety

7. Perfformiad ers ailagor – archebion presennol ac ymlaen llaw


Perfformiad presennol



Gofynnwyd C22 i fusnesau sydd ar agor

Mae'r archebion ers ailagor yn amrywio yn ôl y sector

- 7.1 Mae 11% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor nag y byddent fel arfer wedi'u cael yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae 45% wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 44% wedi cael llai o gwsmeriaid nag arfer.
- 7.2 Ym mhob sector a rhanbarth, mae'r gyfran o fusnesau sydd ar agor ac sydd â llai o gwsmeriaid nag arfer yn llawer uwch na'r gyfran sydd â mwy o gwsmeriaid. Mae hyn yn ymwneud mwy â chapasiti cyfyngedig na'r galw, fel y mae'r siart ganlynol yn dangos:



- 7.3 Mae lefel yr archebion o gymharu â'r cyffredin yn cyfateb yn gadarn â chapasiti pan ar agor. Mae nifer o fusnesau sydd ar agor yn llawn yn gweld lefelau archebu uchel, fel sy'n arferol ar gyfer yr haf, ond nid yw busnesau sydd ar agor yn rhannol yn gallu ateb y galw.

"Rydym ond yn cynnal tri allan o chwech o'n gweithgareddau ond gallwn i fod wedi eu gwerthu bum gwaith drosodd bob dydd"

Gweithredwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

"Rydym yn llawn, fel arfer. Mae'r galw llawer yn uwch na'r arfer, ond nid ydym yn gallu darparu ar ei gyfer"

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Rydym yn cynnal capasiti o 100% ar gyfer y cwsmeriaid rheolaidd sydd yn eu carafanau sefydlog ond dim ond dwy ran o dair ar y meysydd gwersylla. Byddem yn llawn, pe byddem wedi gadael pawb i ddod mewn"

Parc carafanau, y Gogledd


"Mae gennym arwydd sy'n nodi ni ddylid dod i mewn i'r parc heb archebu'n gyntaf, ond mae pobl yn dal i ddod mewn ac rydyn ni mor llawn â'r hyn sy'n teimlo'n braf i ni [capasiti o oddeutu 50%]. Gallem fod wedi llenwi'r safle dair gwaith drosodd"

Parc carafanau, y Gogledd

"Rwy'n gadael bwlch rhwng gwsteion, a dyna pam mae gen i lai o fusnes nag arfer"


Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth



- 7.4 Yn ôl rhanbarth, mae'r cydbwysedd rhwng y rheini sydd â mwy o gwsmeriaid nag arfer a'r rhai sydd â llai yn fwyaf negyddol yng Ngogledd Cymru.

Graddfa'r cynnydd mewn cwsmeriaid



Gofynnwyd C23 i fusnesau sy'n derbyn mwy o gwsmeriaid nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

Rhai gweithredwyr prysur iawn


- 7.5 Mae rhai gweithredwyr yn ddiolchgar o gael derbyn incwm yn dilyn rhan fawr o'r flwyddyn lle na chafwyd unrhyw incwm neu incwm is. Mae maint y sampl ar gyfer y cwestiwn uchod yn rhy fach i rannu'r sampl yn ôl sector neu ranbarth.

"Mae'r galw mor uchel fel ein bod yn anfon ymaith mwy na 200 o bobl bob wythnos"
Parc carafanau, y Gogledd

- 7.6 Mae rhai gweithredwyr yn nodi bod galw cynyddol o'r farchnad gartref wrth i bobl Brydeinig aros yn y DU ar gyfer eu gwyliau yn lle mynd dramor.

"Cawsom nifer fawr o archebion ac ymholiadau newydd ddoe gan bobl nad ydynt am gael eu gosod o dan gwarantyn pan maen nhw'n dychwelyd o Sbaen, felly maen nhw'n dod yma yn lle"
Parc carafanau, y Gogledd

Graddfa'r gostyngiad mewn cwsmeriaid



Gofynnwyd C24 i fusnesau sydd ar agor sy'n derbyn llai o gwsmeriaid nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

Mae busnes wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer nifer fawr o weithredwyr

7.7 Er eu bod yn gallu ailagor a chasglu rhywfaint o incwm y mae gwir angen ei ennill o'r diwedd, mae lefelau cwsmeriaid yn sylweddol is ar gyfer nifer fawr o weithredwyr.

7.8 Wrth ailsamplu'r holl fusnesau sydd ar agor, mae un o bob chwech (17%) o fusnesau sydd ar agor wedi cael llai na hanner y lefel o gwsmeriaid arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'n ymddangos bod y sectorau sy'n ei chael yn fwyaf anodd yw'r canlynol:

- Darparwyr gweithgareddau – mae 37% o'r rheini sydd ar agor wedi cael llai na hanner eu cwsmeriaid arferol
- Hostelaau – mae 32% o'r rheini sydd ar agor wedi cael llai na hanner eu cwsmeriaid arferol
- Bwytaï, tafarndai a chaffis – mae 30% o'r rheini sydd ar agor wedi cael llai na hanner eu cwsmeriaid arferol

7.9 Mae rhai gweithredwyr gweithgareddau ac atyniadau yn dibynnu'n fawr ar deithiau ysgol, ac nid yw'r rhain wedi bod yn digwydd.

"Mae eleni wedi'i difetha. Rydyn ni'n dibynnu ar deithiau ysgol ond mae'r awdurdod addysg wedi dweud wrthynt i ganslo unrhyw deithiau ar gyfer y mis nesaf neu fwy. Ond rydyn ni'n edrych yn obeithiol tuag at y flwyddyn nesaf gan ein bod ni eisoes bron yn llawn o ran archebion, hyd yn oed ar gyfer yr amseroedd lle rydyn ni'n dawe fel arfer"

Gweithredwr gweithgareddau, y Gogledd

“Mae'r sector addysg wedi cael ei daro'n galed iawn ... ar hyn o bryd, nid oes neb hyd yn oed yn ystyried taith ysgol ar gyfer mis Mehefin 2021. Byddwn yn goroesi ond â cholled bersonol sylweddol. Mae pob rhan o sut rydyn ni'n gweithredu, ein marchnata a'n cleientiaid yn ymwneud ag ysgolion, felly bu rhaid canslo popeth”
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

“Rydyn ni'n llogi ar gyfer criwiau unigol o hyd at 30 o bobl heb arlwyio yn hytrach na'r 60 o bobl y byddem yn gallu cael yma yn ystod cyfnodau arferol”
Hostel, y Gogledd

Fel arall, mae llai o gapasiti yn thema allweddol

7.10 Fel y trafodwyd, gyda rhai eithriadau fel dim teithiau ysgol ar gyfer gweithredwyr gweithgareddau ac atyniadau, y rheswm allweddol dros dderbyn llai o gwsmeriaid yw llai o gapasiti. Mae'r galw yno – ond ni ellir ei gyflawni.

“Rydyn ni wedi gwneud y meysydd gwersylla yn fwy fel bod mwy o le i gadw pellter cymdeithasol, ond mae llai o gapasiti o ganlyniad. Mae'r blociau toiled yn gweithredu ar sail ‘dau i mewn, dau allan’; mae pobl yn ciwio ... ar y foment, rydyn ni'n brys iawn. Nid yw'r ffôn wedi peidio â chanu. Mae'n dechrau am 7.30am a ffoniodd rhywun am hanner nos, neithiwr, eisiau archebu lle ar gyfer gwersylla. Mae pobl yn daer i gael mynd am seibiant”
Parc carafanau, y Gogledd

Bwyta, tafarndai a chaffis yn ailagor yn hwyrach

7.11 Ailagorodd y sector hwn ar gyfer cwsmeriaid dan do yn hwyrach na'r sectorau twristiaeth eraill. Daeth rhai twristiaid o Loegr cyn bod y sector yn ailagor gan nad oeddent yn sylweddoli bod y rheolau yn wahanol yng Nghymru.


“Mae wedi bod yn anodd, methu ag agor a bod y tu ôl i Loegr. Rydyn ni wedi cael pobl yn curo ar y drws, gan ddisgwyl i ni fod ar agor gan nad oedden nhw'n sylweddoli bod pethau'n wahanol yng Nghymru”
Tafarn, y De-orllewin

Mae'n dibynnu ar y math o gwsmeriaid rheolaidd

7.12 Mae gan rai gweithredwyr sail cwsmeriaid craidd o ymwelwyr hŷn. Mae rhai yn dweud eu bod yn profi llai o fusnes, neu eu bod yn derbyn ymwelwyr iau o gymharu ag arfer.

“Rydyn ni'n derbyn gwesteion sy'n llawer iau na'n categori 50au-70au arferol. Mae'r rhan fwyaf o'n harchebion ar gyfer pobl sydd yn eu 30au ac ifancach. Rwy'n amau bod y bobl hŷn yn aros i weld beth sy'n digwydd”
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


Archebu ymlaen llaw ar gyfer mis Awst a mis Medi




Y sampl ar gyfer C25 yw busnesau sydd ar agor / sy'n bwriadu ailagor ac sy'n cymryd archebion

Darlun tebyg i'r perfformiad presennol

- 7.13 Mae gan 13% o fusnesau sydd ar agor neu sy'n bwriadu agor fwy o archebion nag arfer ar gyfer mis Awst a mis Medi, mae gan 46% yr un lefel, ac mae gan 41% lai o archebion. Mae sectorau lle mae gwesteion yn gallu cadw pellter cymdeithasol yn haws, megis hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla, yn gwneud yn well yn gyffredinol na llety â gwasanaeth a hostelau.
- 7.14 Yn yr un modd â chwsmeriaid hyd yn hyn, mae archebion yn cyfateb yn gadarn â'r capasiti pan ar agor, fel mae'r siart isod yn dangos:



Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth



7.15 Yn ôl rhanbarth, mae'r cydbwysedd rhwng y rhai sydd â mwy o archebion nag arfer a'r rhai sydd â llai yn fwyaf negyddol yng Ngogledd Cymru.

Mae mis Medi yn edrych yn dawel iawn ar gyfer nifer fawr, ond efallai bod hyn yn ymwneud ag ymddygiad 'aros-i-weld'

7.16 Er bod mis Awst yn brysur iawn ar gyfer rhai gweithredwyr, mae lefelau archebion yn ymddangos fel petaent yn gostwng yn sylweddol ym mis Medi. Credir bod pobl sydd ar eu gwyliau yn aros i weld beth sy'n digwydd ynglŷn â sefyllfa'r cyfyngiadau symud cyn archebu.

"Mae mis Awst yn brysur iawn, ond mae mis Medi yn dawel oherwydd rwy'n credu bod pobl yn archebu ar y funud olaf"
 Parc carafanau, y Gogledd


“Fel arfer, byddai gennym archebion ar gyfer yr hydref yn barod, ond mae pobl yn poeni am ail sbigyn”

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

“Mae mis Medi yn dawel ar hyn o bryd gan fod pobl yn aros i weld os ceir ail don”

Parc carafanau, y Gogledd

Graddfa'r cynnydd mewn archebion



Gofynnwyd C26 i fusnesau sydd â mwy o archebion nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn


Mae rhai gweithredwyr yn wynebu nifer o fisoedd prysur iawn

7.17 Er gwaethaf cyfyngiad o ran faint o archebion mwy y mae gweithredwr yn gallu'u cymryd o gymharu â chyfnod sydd fel arfer yn brysur, mae rhai gweithredwyr yn profi ac yn gallu cyflawni lefel sylweddol o alw. Mae maint y sampl ar gyfer y cwestiwn uchod yn rhy fach i rannu'r sampl yn ôl sector neu ranbarth.

"Mae gennym archebion hyd at ddiwedd mis Hydref. Mae tymor yr hydref yn edrych fel petai'n mynd i bara'n hirach na'r arfer ar ein cyfer. Un eiddo yn unig sydd gennym, ond gallwn ni fod wedi'i werthu dro ar ôl tro. Rydyn ni'n derbyn ymholiadau bob dydd ac yn gorfod siomi pobl."

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Graddfa'r gostyngiad mewn archebion



Gofynnwyd C27 i fusnesau sydd ar agor sy'n derbyn llai o gwsmeriaid nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn


Mae rhai busnesau yn derbyn llawer llai o gwsmeriaid nag arfer

- 7.18 Mae gan 43% o fusnesau sy'n profi gostyngiad mewn archebion o'i gymharu â'r hyn sy'n arferol ar gyfer mis Awst a mis Medi lai na hanner y lefel o archebion sydd ganddynt fel arfer. Ymhlith yr holl fusnesau sy'n cymryd archebion ar gyfer mis Awst a mis Medi, mae gan un o bob chwech (17%) lai na hanner y lefel o archebion sydd ganddynt fel arfer.
- 7.19 Darparwyr gweithgareddau yw'r sector sy'n ei chael yn fwyaf anodd – mae gan 40% o'r rheini sy'n cymryd archebion ar gyfer mis Awst a mis Medi lai na hanner y lefel sydd ganddynt fel arfer. Mae hyn yn gysylltiedig â chapasiti gweithredu a methu â chyflawni ymholiadau.

"Rydyn ni'n mynd â theulu o bedwar allan heddiw, yn lle ein grŵp arferol o 30 o bobl, a allai gynnwys chwe theulu. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi ein llorio ac mae llawer o fusnesau yn mynd i'r gwellt oherwydd hyn"

Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

Cwsmeriaid yn canslo archebion



Y sampl ar gyfer C28 yw busnesau sydd ar agor / yn bwriadu ailagor ac sy'n cymryd archebion

Lefel sylweddol o archebion yn cael eu canslo

7.20 Mae oddeutu dau ym mhob pump (39%) o fusnesau sy'n cymryd archebion wedi profi bod rhai o'r archebion hynny'n cael eu canslo gan gwsmeriaid. Fodd bynnag, gan fod cymaint o alw, mae archebion newydd yn dod yn lle'r rheini sydd wedi'u canslo yn aml.

7.21 Fesul rhanbarth, mae cyfran y busnesau sydd ag archebion yn cael eu canslo gan gwsmeriaid ar ei hisaf yn Ne-ddwyrain Cymru:

- Gogledd Cymru: Mae 48% wedi profi archebion yn cael eu canslo
- Canolbarth Cymru: Mae 46% wedi profi archebion yn cael eu canslo
- De-orllewin Cymru: Mae 36% wedi profi archebion yn cael eu canslo
- De-ddwyrain Cymru: Mae 18% wedi profi archebion yn cael eu canslo

7.22 Rhoddodd cwsmeriaid nifer fawr o resymau dros ganslo, gan gynnwys y canlynol:

- Ni ellir dod o hyd i lety / archebion llety yn methu
- Datblygu symptomau COVID
- Yn ofn dal y feirws / yn dal i warchod
- Mae cyfyngiadau symud yn cael eu gosod ar ardal y cwsmer unwaith yn rhagor

- Nid yw rhai mathau o grwpiau wedi cael caniatâd eto / nid yw'n ymarferol ar gyfer rhai grwpiau eto
- Y tywydd
- Newid meddwl o ganlyniad i'r diffyg mewn cyfleusterau sydd ar agor (meysydd gwersylla yn arbennig)
- Nid ydynt yn gallu fforddio'r daith bellach
- Nid yw ymwelwyr o dramor yn gallu cyrraedd y safle

“Nid oedd un yn gallu wynebu'r peth. Roedd un o Gaerlŷr. Mae pobl wedi cael traed oer. Mae eraill wedi lleihau eu taith o ddeg diwrnod i dri neu bedwar diwrnod. Roedd gŵr un wedi cael ei ddiswyddo. Mae un wedi'i osod ar ffyrlo ac nid yw'n gallu'i fforddio. Cafwyd pob math o resymau. Rydyn ni'n rhoi ad-daliadau i bawb”
Parc carafanau, y Gogledd

“Roedd un yn byw ym Manceinion Fwyaf. Roedd gan y lleill aelodau o'r teulu a oedd yn sâl”
Llety hunanddarpar, y Canolbarth


“Rydyn ni wedi cael nifer fawr o bobl yn canslo oherwydd ein bod wedi e-bostio canllawiau COVID i'n holl westeion. Gwnaeth nifer fawr o westeion ganslo o ganlyniad i hynny. Roedden nhw wedi archebu yn gynnar iawn, gan obeithio y byddai pethau'n iawn erbyn mis Awst, ond mae dal mesurau ar waith sydd yn rhaid i ni i gyd eu dilyn”
Parc carafanau, y Gogledd

Ond mae galw mawr yn golygu bod archebion sydd wedi'u canslo yn gallu cael eu llenwi'n gyflym

7.23 Gan ei bod yn ymddangos bod y galw yn fwy na'r cyflenwad ar hyn o bryd oherwydd bod llai o gapasiti gweithredu, mae cwsmeriaid eraill yn aml yn cymryd lle cwsmeriaid sy'n canslo yn gyflym.

“Nid wyf erioed wedi gweld cymaint o gwsmeriaid yn canslo ond, yn ddigon rhyfedd, cyn gynted ag y bydd cwsmer yn canslo (oherwydd bod ein pwll, campfa a sba ar gau fel arfer) rydyn ni'n derbyn archeb arall yn ei le”
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Goroesiad busnesau



Rhagolwg mwy iach nag ychydig fisoedd yn ôl

- 7.24 Dywedodd 7% o weithredwyr nad ydyn nhw'n disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf. 33% oedd y gyfran yn yr arolwg blaenorol ar ddiwedd mis Ebrill.
- 7.25 Mae ailagor mewn pryd ar gyfer yr haf wedi rhoi rhywfaint o incwm sydd ei angen yn fawr i fusnesau ac mae wedi ymestyn eu goroesiad – am y tro.

“Os na fyddwn yn gwneud llawer o arian ym mis Awst, bydd rhaid i ni roi'r gorau i'r busnes ac ailgartrefu'r anifeiliaid i gyd”
Atyniad, y Gogledd

Gwahaniaethau yn ôl sector

Hyd goroesiad busnes disgwylledig	Sector						
	Llety â gwasanaeth	Hunanddarpar	Meysydd carafanau /gwersylla	Hostelau	Atyniadau	Darparwyr gweithgareddau	Bwytai / tafarndai / caffis
Hyd at 6 mis	7%	8%	3%	-	5%	16%	8%
Mwy na 6 mis	59%	69%	82%	67%	55%	38%	53%
Mae'n dibynnu	10%	8%	9%	17%	12%	24%	17%
Ddim yn gwybod	24%	15%	6%	16%	28%	22%	22%
<i>Sampl:</i>	256	282	78	24	75	50	36

- 7.26 Mae dyfodol meysydd carafanau a meysydd gwersylla yng Nghymru yn edrych yn weddol gadarn am y tro, gyda'r mwyafrif (82%) yn dweud eu bod yn disgwyl goroesi'n hirach na'r chwe mis nesaf.
- 7.27 Ar y pegwn arall, mae goroesiad darparwyr gweithgareddau yn ansicr, gyda'r cyfran isaf (38%) o unrhyw sector yn dweud eu bod yn disgwyl goroesi'n hirach na chwe mis arall.
- 7.28 Ymysg y busnesau a wnaeth ateb 'mae'n dibynnu ar ffactorau penodol', trafodir y prif ffactorau isod.

Os ceir ail don, a graddau'r cyfyngiadau symud

- 7.29 Mae rhai gweithredwyr yn dweud eu bod wedi goroesi 'ton' gyntaf y pandemig, ond ni fyddent yn disgwyl goroesi ail don. Mae eraill yn dweud y byddai goroesi ail don yn dibynnu ar hyd a graddau'r cyfyngiadau symud.

"Cyn belled ag nad oes cyfnod o gyfyngiadau symud parhaus arall, byddwn yn goroesi. Os bydd un yn digwydd, mae'n debyg y bydd y busnes yn cael ei osod ar y farchnad"

Atyniad, y Canolbarth

"Os byddwn yn cael ail sbigyn, bydd hynny'n ddiwedd arnom"

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Faint o incwm y maen nhw'n gallu casglu nawr tra bo ganddyn nhw gyfle

- 7.30 Yr haf sy'n cynnig y cyfle gorau i oroesi gan mai hwn yw amser prysuraf y flwyddyn ar gyfer twristiaeth, ac mae'r diwydiant yn cael gweithredu ar hyn o bryd. Mae angen i fusnesau ennill cymaint o incwm ag y gallant tra'u bod yn cael y cyfle.

“Mae'n dibynnu ar faint o bobl y byddwn yn eu derbyn nawr”

Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

Pa mor hir y bydd yn ei gymryd cyn y gellir ailddechrau gyda capasiti llawn

- 7.31 Mae rhai gweithredwyr yn gwneud eu gorau i oroesi gyda llai o gapasiti ond ni fyddan nhw'n gallu parhau yn y modd hwn am gyfnod amhenodol.

“Er ein bod yn gallu agor, rydym yn gweithredu ar lefel lai. Pa mor hir y gallwn oroesi? Efallai hyd at ddiwedd y flwyddyn”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

Pryd bydd teithiau ysgol yn gallu ailddechrau


- 7.32 Mae rhai gweithredwyr o fewn y sectorau gweithgareddau, atyniadau a hostelau yn ddibynnol iawn ar deithiau ysgol. Nid yw'r cyfyngiadau ar deithiau ysgol wedi cael eu codi eto, ac mae goroesiad rhai busnesau sy'n dibynnu ar y farchnad hon yn y fantol.

“Os na fydd ysgolion yn cael mynd ar gyrsiau preswyl y flwyddyn nesaf, efallai na fydd y busnes yn goroesi”

Darparwr gweithgareddau

8. Cynlluniau'r llywodraeth a chymorth pellach a ddymunir

Estyn Llaw drwy Fwyta Allan



Gofynnwyd C33 i fwytai, tafarndai a chaffis

Defnydd cymysg

- 8.1 Cafwyd defnydd cymysg o gynllun 50% 'Estyn Llaw drwy Fwyta Allan' Llywodraeth y DU ymysg bwytai, tafarndai a chaffis yng Nghymru.
- 8.2 Nid yw rhai gweithredwyr yn gymwys ar gyfer y cynllun gan eu bod yn gwerthu bwyd tecawê yn bennaf. Mae gweithredwyr wedi gorfod addasu'r modd y maen nhw'n gweithredu er mwyn goroesi cyfnod y cyfyngiadau symud.


"Roeddem mewn sefyllfa ffodus am fod modd addasu ein bwyd i greu bwydlen tecawê. Nid oeddem wedi cynnig bwyd tecawê erioed o'r blaen ond mae wedi bod yn gweithio'n dda iawn"
Bwyty, y Canolbarth

"Nid wy'n gymwys ar gyfer y cynllun 'Bwyta Allan' gan fy mod yn gwerthu bwyd tecawê yn bennaf"
Caffi, y De-ddwyrain

- 8.3 Ceir hefyd rai cymhlethdodau bach os yw gweithredwyr yn defnyddio til hen ffasiwn.

"Bydd yn anodd gweinyddu'r cynllun 'Bwyta Allan' â system til hynafol. Gyda siandi, er enghraifft, byddai'r disgownt ond yn cyfrif ar gyfer y lemonêd – neu a yw'r cyfan yn cael ei ystyried fel un ddiod? Mae'r un peth yn wir am jin a thonic"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Safon Barod Amdani y diwydiant



Ymrwymiad amrywiol yn ôl sector

- 8.4 Mae ychydig dros hanner (54%) o fusnesau wedi ymrwymo i'r safon diwydiant Barod Amdani. Mae'r gyfran ar ei huchaf ymhlith meysydd carafanau a meysydd gwersylla (65%) ac ar ei hisaf ymhlith bwyty, tafarndai a chaffis (31%). Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.
- 8.5 Mae nifer fawr o'r rheini nad oeddent yn ymwybodol o'r safon yn flaenorol yn ei hystyried bellach.

"Byddaf yn edrych ar safon y diwydiant 'Barod Amdani' heddiw"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Cymorth a ddymunir

- 8.6 Gwnaethom ofyn y cwestiwn agored canlynol i ymatebwyr: “Ar wahân i gymorth ariannol, pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes?” Rydym yn trafod y prif themâu isod.

Eglurder ar gyfer y cyhoedd ynghylch y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr

- 8.7 Mae'r gwahaniaethau o ran rheolau COVID rhwng Cymru a Lloegr yn creu problemau ar gyfer rhai gweithredwyr. Nid yw pob ymwelydd o Loegr yn deall bod Cymru yn llunio ei rheolau ei hun ynghylch sut i reoli'r pandemig ac nid ydyn nhw bob amser yn hoffi cael gwybod bod rhaid iddyn nhw gadw at ganllawiau gwahanol yng Nghymru.

“Mae pobl o ochr arall y ffin [yn Lloegr] yn dweud, “Wel, mae'n cael ei ganiatáu yn y fan hon!” pan nad yw'n cael ei ganiatáu yng Nghymru. Byddai canllawiau cliriach am y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr yn helpu”
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

“Mae angen i Gymru ledaenu neges gliriach i Loegr ynglŷn â'r gwahaniaethau. Mae pobl yn gallu bod yn eithaf blin ar y ffôn pan mae'n rhaid i ni esbonio iddynt nad yw pethau'n gweithredu yn yr un modd yma”
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

“Mae pobl sydd yn dod yma o Loegr wedi drysu. Mae'r newyddion cenedlaethol [DU] ond yn sôn am y rheolau yn Lloegr felly mae pobl yn dod yma ac yn disgwyl bod pethau yr un peth”
Bwyty, y Canolbarth

Eglurder ynglŷn â'r hyn a ganiateir, a sut i gadw cwsmeriaid yn ddiogel

- 8.8 Ceir nifer o ganllawiau gwahanol sy'n ymwneud â mathau gwahanol o fusnes, ac mae'r canllawiau hyn yn gallu newid wrth i'r argyfwng ddatblygu. Mae rhai gweithredwyr yn cael eu llethu gan y cymaint o wybodaeth sydd ar gael i'w hystyried a'i dadansoddi i weld sut y mae'n berthnasol iddyn nhw.
- 8.9 Yn arbennig, mae angen eglurder ynglŷn â glanhau.

“Diffyg eglurder sy'n gyfrifol am ran fawr o fy rhwystredigaeth ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa mor gyfnewidiol ac felly mae'n anodd sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth. Rydyn ni wedi siarad â phobl lechyd yr Amgylchedd a Croeso Cymru ac rydyn ni'n derbyn e-byst. Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf”
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

“Byddai'n dda cael canllawiau mwy eglur ynglŷn â'r hyn sydd angen i ni a'n cwsmeriaid ei wneud – gwisgo mygydau, er enghraifft. Rydyn ni'n gwisgo mygydau ond nid yw'n ymddangos fel bod pawb sy'n gweithio mewn bwytai yn gwneud hynny.”
Bwyty, y Canolbarth

“Nid yw rhywfaint o'r canllawiau a'r cyfarwyddyd ar gyfer glanhau yn ddigon penodol ar gyfer busnesau llai, fel ein heiddo hunanddarpar. Rydyn ni'n teimlo'n nerfus ynglŷn â hyn ac nid ydyn ni am weld un o'n gwesteion yn mynd yn sâl. Rydyn ni'n teimlo ein bod yn llunio ein rheolau ein hun wrth fynd yn ein blaenau”
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Ymgyrch marchnata domestig i ymestyn y tymor

8.10 Nid yw rhai gweithredwyr yn disgwyl creu digon o incwm yn ystod yr haf er mwyn goroesi'r gaeaf ac felly maen nhw'n awyddus iawn i weld ymgyrch marchnata domestig gadarn (yng Nghymru a gweddill y DU) i ymestyn y tymor.

“Mae angen i Croeso Cymru gynnal ymgyrch hysbysebu dda iawn er mwyn hyrwyddo Cymru a gwyliau cartref i'r gwledydd cartref eraill”
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Mae angen ymestyn y tymor fel y gallwn gael pobl i archebu ar gyfer y gaeaf”
Parc carafanau, y Gogledd

“Mae hyrwyddo'n bwysig iawn ar gyfer archebion y gaeaf am ein bod wedi colli cymaint o archebion. Rydyn ni'n barc gwyliau sy'n gweithredu am 12 mis y flwyddyn, felly byddai bod yn brysur yn ystod misoedd y gaeaf yn rhagorol”
Parc carafanau, y Gogledd

Ailddechrau teithiau ysgol

8.11 Mae gweithredwyr sy'n dibynnu'n fawr ar deithiau ysgol yn ysu i weld y cyfyngiadau yn cael eu codi mewn rhyw ffordd.

“Rydyn ni'n ysu i gael eglurder gan yr adran addysg. Nid ydyn ni'n deall pam nad yw teithiau ysgol yn cael eu caniatáu pan fydd ysgolion yn ailagor ac yn gweithredu mewn swigod. Mae angen sicrwydd arnom y bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu a hoffem wybod pryd bydd hynny'n digwydd”
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

Nid oes nifer fawr o bobl yn cadw pellter cymdeithasol

8.12 Ceir adroddiadau ar draws sectorau gwahanol bod gweithredwyr yn ceisio sicrhau bod ymweliadau yn ddiogel ar gyfer eu hymwelwyr, ond nid yw rhai ymwelwyr yn gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud. Mae'r sylwadau ynglŷn â hyn yn dod o Ogledd Cymru yn bennaf. Mae angen cymorth gan awdurdod uwch ar weithredwyr.

“Mae'r gymuned yn pryderu gan nad yw rhai ymwelwyr yn cadw at y rheolau”
Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Nid yw pobl yn cadw pellter cymdeithasol yn Llandudno. Mae angen i ni gadw at yr un canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol. Hoffem weld pawb yn cymryd hyn o ddifrif”
Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn pryderu o gwbl. Dim ond un unigolyn a ddefnyddiodd ein hylif diheintio dwylo ar ein cownter cofrestru o'r deugain o deuluoedd a gyrhaeddodd ddydd Sadwrn. Mae nifer fawr o bobl yn ymddwyn fel eu bod am anghofio popeth tra'u bod ar eu gwyliau”

Parc carafanau, y Gogledd

Gwerthfawrogir y cymorth gan Croeso Cymru yn fawr

8.13 Mae rhai gweithredwyr yn cynnig sylwadau cadarnhaol am y cymorth y maen nhw'n ei dderbyn gan Croeso Cymru.

“Rwy' wedi gwerthfawrogi'r cymorth rwy' wedi'i dderbyn gan Croeso Cymru yn fawr iawn. Mae o hyd yn beth da cael rhywun ar ochr arall y ffôn sy'n gallu helpu”

Llety hunanddarpar, y Gogledd